




# Canllaw i lawrlwytho ap COVID-19 y GIG ar ffôn iOS



1 Ar ôl datgloi eich ffôn, cliciwch ar y ddelwedd uchod i lansio'r "App Store".




2 Ar waelod y sgrîn, tapiwch ar yr eicon "Chwilio" (chwyddwydr).




3 Tapiwch ar y bar chwilio. teipiwch "NHS COVID-19". Fe welwch restr o ganlyniadau. Tapiwch ar yr un sydd â'r enw "NHSCOV1D-19".



4 Tapiwch y botwm "GET" i lawrlwytho'r ap.




5 I gwblhau'r lawrlwytho, efallai y gofynnir i chi deipio eich manylion Apple ID neu ddefnyddio eich ID bys neu wyneb.



6 Os nad yw hyn wedi gweithio, ewch i "Troubleshooting" ar [www.covid19.nhs.uk](http://www.covid19.nhs.uk) i gael help.




7 Nawr mae'n amser troi Bluetooth ymlaen er mwyn i'r ap weithio'n iawn. I wneud hyn, ewch i "Settings" a tapiwch ar yr eicon.



8 Yn "Settings", sgroliwch i lawr i fffendio "Bluetooth" a tapiwch arno.

# Canllaw i lawrlwytho ap COVID-19 y GIG ar ffôn iOS




Trowch Bluetooth ymlaen trwy symud y botwm i'r dde.



Pwyswch ar eich botwm Home neu sweipiwch i fyny i fynd nôl i'ch sgrin cartref. Yno, fe welwch eich holl aps. tapiwch ar Ap COVID-19 y GIG i'w lansio.



Pan fyddwch wedi gorffen gosod yr ap i fyny, bydd yr Ap yn barod ac yn gweithio.



Dilynwch y camau i orffen gosod yr ap i fyny. Bydd hyn yn cynnwys galluogi "Exposure Logging", i nodi unrhyw risg.



Cewch gario 'mlaen i ddefnyddio'ch ffôn fel arfer ond cofiwch gadw'r ap yn rhedeg yn y cefndir a cadwch eich Bluetooth ymlaen drwy'r amser. Fydd yr ap ddim yn tracio eich lleoliad.